



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Adolygu gan Estyn

**Ysgol Calon Cymru
Ffordd y Coleg
Llanfair-ym-Muallt
Powys
LD2 3BW**

Dyddiad yr ymweliad: Medi 2024

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Calon Cymru wedi gwneud cynnydd annigonol o ran yr argymhellion ar ôl yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r ysgol ar ôl derbyn y cynllun gweithredu, i sicrhau ei fod yn addas ac yn debygol o ysgogi'r gwelliant gofynnol. Bydd arolygwyr yn ymweld â'r ysgol eto, ymhen 12 mis arall, i fonitro cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion.

O dan ddarpariaethau Adran 39 (9) Deddf Addysg 2005, rhaid i bob adroddiad blynyddol i rieni a baratoir gan y corff llywodraethol o dan Adran 30 Deddf Addysg 2002 gynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

A1. Gwella ansawdd yr addysgu.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan at addysgu trwy ei 'hanfodion gwersi'. Mae hyn wedi helpu datblygu dealltwriaeth ar y cyd ymhlith staff o ddisgwyliadau'r ysgol ynghylch addysgu. Yn fwy diweddar, mae 'hanfodion marcio' wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno gyda'r nod i wella ansawdd yr adborth. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau hyn wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd yr addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion. Mae ganddynt arferion ystafell ddosbarth effeithiol ac maent yn rheoli ymddygiad yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodolau iaith da, ac mae llawer ohonynt yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn.

Yn yr achosion prin iawn lle mae'r addysgu'n gryf iawn, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n fedrus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym. Yn y gwersi hyn, mae gweithgareddau yn adeiladu'n dda ar ei gilydd ac mae adnoddau wedi eu dylunio'n ofalus i gefnogi dysgu'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgwyliadau athrawon yn uchel iawn ac maent yn deall yn dda sut i gynnig lefel o her sy'n galluogi disgyblion i gyflawni eu potensial.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion, ond mae disgwyliadau o ran safonau a chynnydd disgyblion yn rhy amrywiol. Yn aml, mae diffyg eglurder am yr hyn y mae her yn ei olygu mewn gwersi, yn enwedig i

ddisgyblion mwy abl. Mewn mwyafrif o wersi, mae gweithgareddau a disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn addas, at ei gilydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae disgwyliadau athrawon a lefel yr her yn rhy isel. O ganlyniad i hyn, mae cyflymdra dysgu'r disgyblion yn rhy araf. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau cynnydd disgyblion. Maent yn tueddu i gynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach na'u galluogi i wneud cynnydd digonol yn eu gwybodaeth a'u medrau pwnc. Mae diffygion yn y gwersi hyn hefyd yn cynnwys darparu gweithgareddau ar lefel rhy isel neu wedi'u gor-strwythuro, gan roi gormod o amser, neu ddim digon o amser, i dasgau, a pheidio ag archwilio'r gwaith yn ddigon manwl.

Mae llawer o athrawon yn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau clir, ac mae lleiafrif ohonynt yn modelu ac yn dangos enghreifftiau yn effeithiol. Pan fydd cynorthwywyr addysgu mewn gwersi, maent yn rhoi cymorth defnyddiol a sensitif i ddisgyblion. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n dda i ddiwallu anghenion disgyblion o wahanol alluoedd, ac yn addasu eu gwersi'n synhwyrol i ymateb i gynnydd disgyblion. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio ar gyfer, nac yn sylwi ar, gamdybiaethau neu anawsterau disgyblion yn ddigon da, ac nid ydynt yn addasu eu haddysgu'n briodol i ymateb i hynny.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn mynd o amgylch y dosbarth, gan gynnig adborth buddiol i ddisgyblion unigol, ac mae llawer ohonynt yn holi disgyblion yn briodol i wirio'u dealltwriaeth. Mae lleiafrif ohonynt yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n herio disgyblion, yn ennyn eu diddordeb ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o athrawon yn gofyn cwestiynau digon treiddgar sy'n ymestyn ac yn herio disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn nodi neu'n cywiro gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi yng ngwaith disgyblion, ac yn rhoi sylwadau byr ac addas ar ansawdd eu hymatebion. Maent yn canmol ymdrech dda, ac mae mwyafrif ohonynt yn darparu adborth buddiol, ar y cyfan, ar sut gall disgyblion wella'u gwaith ymhellach. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn gor-ganmol gwaith cymedrol.

Mae gormod o amrywiad ar draws yr ysgol o ran pa mor aml a pha mor effeithiol y mae disgyblion yn ymateb i adborth, gan gynnwys pa mor dda y maent yn derbyn cyngor athrawon mewn darnau o waith yn y dyfodol. Yn gyffredinol, nid yw ymateb athrawon yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn cynnwys cwestiynau estynedig yn eu hadborth i helpu disgyblion wneud cynnydd. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ymateb yn dda, ar y cyfan. Fodd bynnag, at ei gilydd, ar draws llawer o bynciau, nid yw'r adborth ar gyfer disgyblion gallu uwch yn ddigon heriol ac nid yw'n eu galluogi i gyflawni eu potensial a chynhyrchu gwaith o safon uwch. At ei gilydd, mae ansawdd asesiadau athrawon a'u heffaith ar gynnydd disgyblion yn rhy amrywiol ar draws yr ysgol.

A2. Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol ar draws y cwricwlwm

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi ailstrwythuro'r trefniadau arweinyddiaeth yn briodol i gefnogi ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddatblygu medrau llythrennedd,

rhifedd a digidol disgyblion. Mae cydlynwyr medrau wedi nodi ‘pynciau hyrwyddo’ i ddatblygu’r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Er y bu cynnydd addas yn y ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd Saesneg disgyblion, nid oes digon o gynnydd wedi bod mewn datblygu’r ddarpariaeth ar gyfer medrau rhifedd a digidol.

Mae’r cydlynnydd llythrennedd yn gweithio’n effeithiol gydag arweinwyr a staff i gynllunio cyfleoedd pwrpasol yn gydlynus i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd Saesneg. Mae ffocws cryf ar ddarparu cyfleoedd addas i ddatblygu ysgrifennu estynedig disgyblion, gyda phwyslais clir ar ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaedd. Yn ychwanegol, darparwyd dysgu proffesiynol ac adnoddau defnyddiol yn canolbwyntio ar strategaethau darllen ar gyfer athrawon. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd mewn pynciau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg wedi’i datblygu’n ddigonol, ac nid oes arweinyddiaeth glir o ran yr agwedd hon.

Mae arweinwyr wedi nodi amrywiaeth o dasgau addas i ddatblygu ychydig o agweddau ar fedrau rhifedd disgyblion, er enghraifft wrth fabwysiadu ymagwedd gyson at sut mae disgyblion yn llunio graffiau ac yn eu dehongli. Fodd bynnag, nid yw’r tasgau hyn bob amser yn ystyrion ac nid ydynt bob amser yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion, yn enwedig mewn pynciau y tu allan i’r ‘pynciau hyrwyddo’ perthnasol, sef gwyddoniaeth, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg. Mae ansawdd y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn yn amrywiol ac nid ydynt bob amser yn ddigon heriol.

Mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn gwella adnoddau digidol yr ysgol i gefnogi dysgu’r disgyblion. Yn ychwanegol, mae’r cydlynnydd digidol wedi gweithio gydag arweinwyr cwricwlwm ac maent yn dechrau datblygu cyfleoedd ystyrion i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y rhan fwyaf o bynciau.

Mae cydlynwyr medrau yn gwerthuso priodoldeb y ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig y ‘tasgau cerrig milltir’, trwy weithgareddau craffu ar waith. Fodd bynnag, nid yw’r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio’n briodol ar ansawdd gwaith disgyblion na’r safonau a gyflawnir.

A3. Cryfhau prosesau cynllunio gwelliant

Ar ôl yr arolygiad craidd ym mis Hydref 2022, roedd cyfnod o ansefydlogrwydd wrth i uwch dîm arweinyddiaeth newydd ymgysgu â’u rolau. Gadawodd y pennaeth parhaol ei swydd ym mis Ebrill 2024, a phenodwyd pennaeth dros dro. Mae wedi creu uwch dîm arweinyddiaeth dros dro ac wedi gwneud newidiadau i rolau a chyfrifoldebau arweinwyr. Mae hefyd wedi sicrhau bod gan yr ysgol gyllideb gytbwys yn ystod y flwyddyn, er gwaethaf diffyg sylweddol hirsefydledig.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi dechrau cryfhau prosesau hunanwerthuso, sydd wedi arwain at ychydig o welliannau cadarnhaol. Mae’r ysgol wedi nodi pedwar maes i’w gwella yn briodol yn ei chynllun datblygu ysgol, ac mae prosesau addas, ar y cyfan, ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Mae’r ysgol wedi nodi llywodraethwr wedi’i enwi i gefnogi pob un o flaenoriaethau’r ysgol, ond mae’n rhy gynnar i werthuso pa mor dda y mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio’r ysgol i wella.

Mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau priodol at ddibenion hunanwerthuso a sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi, a holi barn rhanddeiliaid. Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn llunio adroddiadau trosolwg tymhorol sy'n rhoi crynodeb o'r canfyddiadau o'r gweithgareddau monitro hyn. Mae hyn yn helpu arweinwyr yn fras i nodi meysydd gwannach sydd angen eu gwella, fel asesiadau athrawon, ac addysgu, i raddau llai. Mae arweinwyr canol yn defnyddio'u canfyddiadau i rannu arfer dda â chyfoedion mewn 'adolygiadau effaith a chynnydd'. Fodd bynnag, mae'r drefn o ran gwerthuso effaith yr addysgu ar ddysgu'r disgyblion yn gyfyngedig. Prin yw'r ffocws ar ddatblygu medrau disgyblion, a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Er bod y prosesau gwerthuso hyn yn cynhyrchu data meintiol i ddangos pa mor dda y mae athrawon yn cydymffurfio â 'hanfodion dysgu' cytûn yr ysgol, nid ydynt yn cynnwys manylder am ba mor dda y mae dysgwyr yn dysgu ac yn gwneud cynnydd. Mae prosesau gwerthuso ysgol gyfan a meysydd dysgu yn dilyn model cydymffurfio yn bennaf, gydag ychydig iawn o ffocws ar ansawdd neu effaith ar gynnydd a medrau disgyblion. Oherwydd diffygion y model cydymffurfio hwn, mae gallu arweinwyr i werthuso ansawdd yr addysgu o ran ei effaith ar safonau disgyblion yn gyfyngedig.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw amcanion yn ddigon trylwyr i sicrhau cynnydd mewn addysgu a dysgu, a dwyn staff i gyfrif. Ceir cysylltiad cyfyngedig rhwng dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad.

At ei gilydd, ni fu digon o gynnydd mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad. O ganlyniad, nid yw cynllunio gwelliant wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn cynnwys y Gymraeg, presenoldeb ysgol gyfan a lleihau'r diffyg yn y gyllideb.

A4. Mynd i'r afael â'r problemau iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r ysgol a'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â rhai o'r problemau iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd. Mae ffensys o amgylch safleoedd Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt bellach yn gyflawn. Mae trefniadau addas ar waith erbyn hyn i nodi a sicrhau diogelwch disgyblion chweched dosbarth ar safle Llandrindod. Mae'r rhain yn cynnwys laniardiau ar gyfer holl ddisgyblion y chweched dosbarth, mynedfeydd trwy ddefnyddio ffob a threfniadau mewngofnodi.

Fodd bynnag, mae dwy broblem o hyd. Mae angen datrys y trefniadau mynediad cyhoeddus yn y ganolfan hamdden a'r trefniadau parcio cyhoeddus yn ystod y diwrnod ysgol ar gampws Llanfair-ym-Muallt.

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.